COFNODION CYFARFOD BLYNYDDOL Y SIR A GYNHALIWYD YN NEUADD LISBURNE, LLANAFAN, AR NOS FERCHER 18FED O FEDI 2019

Cadeirydd: Mr Milwyn Davies, Llywydd y Sir

Ymddiheuriadau: Sara Jenkins; Alwen Thomas; Gwenan Davies; Heather Price; W.P. Lloyd-Jones; Gwynne Davies; Angela Evans; Dai Davies; Manon Richards; John Green; Rhodri Lewis; Gwion Jones; Eirlys Lloyd; Bronwen Morgan; Geraint Morgan; Teleri Evans; Siriol Teifi; Emyr Evans; Mared R Jones; Dewi Davies; Emyr ac Ada Evans; Gareth Evans ac Eifion Morgans

Presennol: 60 yn ôl llyfr presenoldeb

Wrth law: Anne Jones, Trefnydd y Sir

Cyn dechrau'r cyfarfod, croesawodd y Llywydd pawb i Neuadd Lisburne yn Llanafan.

1. Cadarnhau cofnodion y cyfarfod diwethaf

Cynigiwyd fod cofnodion y cyfarfod diwethaf yn gywir gan Esyllt Ellis Jones ac eiliwyd gan Megan Lewis.

2. Materion yn codi o'r cofnodion

Nid oedd yna faterion yn codi.

3. Gohebiaeth

- Poster 'It's a Knockout', Fforwm Ieuenctid Nos Wener 20fed o Fedi am 7.00 y.h. yng Nghanolfan Hamdden Tregaron
- Poster Hyfforddiant Barnu Gwartheg Godro ar Nos Sul 22ain o Fedi am 7.30 y.h.
- Poster Diwrnod Maes y Sir ar y 28ain o Fedi ar Fferm Trawscoed, Abermagwr.
- Magu Llo yn y Ffair Aeaf – dyddiad cau 18fed o Hydref.
- Cystadleuaeth Prif Gynhyrchydd Ŵyn yn y Ffair Aeaf – dyddiad cau 18fed o Hydref.
- Tê prynhawn a Sioe Ffasiynau C.Ff.I. Llangeitho - 6ed o Hydref am 3.30 y.p. yn Neuadd Jiwbili, Llangeitho
- Cymanfa Ganu C.Ff.I. Bro'r Dderi - 6ed o Hydref am 7.00 y.h. yng Nghapel Bethel, Silian

4. Cyfrifon ariannol y Sir (adroddiad gan Mr Eryl Jones)

Aethpwyd drwy'r fantolen ariannol a nododd i bod siwr yn record o elw i'r Mudiad. Cynigiwyd fod y cyfrifon yn gywir gan Esyllt Ellis Jones ac eiliwyd y cynnig gan Aled Davies. Diolchodd y Llywydd i Eryl Jones am ei waith dros y flwyddyn.

5. Adroddiad gan Gadeirydd Fforwm Ieuenctid y Sir

Derbyniwyd adroddiad gan Alaw Fflur Jones. Llongyfarchodd y Llywydd Alaw ar ennill Aelod Iau NFYFC.

6. Adroddiad Cadeirydd Pwyllgor Materion Gwledig y Sir

Derbyniwyd adroddiad gan Ifan James.

7. Adroddiad Cadeirydd Pwyllgor Gweithgareddau y Sir

Derbyniwyd adroddiad gan Elin Calan Jones ar ran Gwenan Davies.

8. Adroddiad Trefnydd y Sir

Derbyniwyd adroddiad gan Anne Jones, Trefnydd y Sir.

9. Adroddiad Llywydd y Sir

Derbyniwyd gair gan Milwyn Davies, a diolchodd am y fraint o gael bod yn Llywydd am y flwyddyn ddiwethaf.

10. Ethol Llywydd a Darpar Lywydd y Sir am y flwyddyn 2019/2020

Cynigiwyd Ifan Davies fel Llywydd y Sir am y flwyddyn 2019/2020 gan Dewi Jones ac eiliwyd gan Sioned Davies. Derbyniodd a diolchodd Ifan i'r Mudiad am yr anrhydedd o gael ei ethol i'r swydd.

Cynigiwyd Siôn Jenkins fel Is-Lywydd y Sir am y flwyddyn 2019/2020 gan Elen Lloyd-Jones ac eiliwyd gan Endaf Griffiths. Derbyniodd a diolchodd Siôn am y fraint o gael ei ethol i'r swydd.

11. Ethol Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Sir am y flwyddyn 2019/2020

Cynigiwyd Esyllt Ellis Jones fel Cadeirydd y Sir am y flwyddyn 2019/2020 gan Elin Calan Jones ac eiliwyd gan Rhiannon Davies. Derbyniodd Esyllt y swydd a llongyfarchwyd hi. Cyn i Caryl drosglwyddo'r gadwyn i Esyllt fe ddiolchodd Caryl i bawb am y gefnogaeth a dderbyniodd gydol y flwyddyn. Yna diolchodd Esyllt i Caryl am ei gwaith gydol yr amser tra bu yn aelod ac yn Gadeirydd y Sir.

Cynigiwyd Bleddyn Davies fel Is-Gadeirydd y Sir am y flwyddyn 2019/2020 gan Anest James ac eiliwyd y cynigiad gan Dyfrig Williams. Derbyniodd Bleddyn y swydd.

12. **Dewis Is-lywyddion ac Archwilwyr**

Aethpwyd drwy'r rhestr yn fanwl. Ychwanegwyd yr enwau canlynol: Milwyn Davies; Iwan Davies; Elin Haf Jones; Geraint Lloyd; Ben Lake ac Elin Jones i'r rhestr.

Cynigwyd enw Eryl Jones i fod yn archwilydd y sir gan Lauren Jones ac eiliwyd y cynigiad gan Megan Lewis. Derbyniodd Eryl y swydd.

Cynigwyd enw Aled Davies i fod yn Is-drysorydd y Sir gan Bleddyn Davies ac eiliwyd y cynigiad gan Elin Calan Jones. Derbyniodd Aled y swydd.

13. **Trafodaeth am NFYFC**

Mi wnaeth Caryl Haf egluro pam bod yna drafodaeth am NFYFC ac mi groesawodd y Llywydd, Dewi Parry, Is-gadeirydd NFYFC i ddweud gair am y mudiad Cenedlaethol. Cafwyd trafodaeth ddiddorol am y Mudiad yn Genedlaethol a gofynnwyd iddo pa gyfleon eraill oedd gan NFYFC i gynnig i aelodau Ceredigion. Penderfynwyd i fynd â'r drafodaeth yn ôl i'r Clybiau ac i'r aelodau wneud y penderfyniad os am aros gyda NFYFC.

14. Cwpan y cynnydd yn aelodaeth

Nodwyd y clybiau oedd wedi cynyddu yn nifer o aelodau dros y flwyddyn ddiwethaf sef Bryngwyn; Caerwedros; Felinfach; Llangwyryfon; Llanwenog; Lledrod; Talybont a Thregaron.

CANLYNIADAU

4ydd – Llangwyryfon - 14.58%
3ydd – Talybont - 16.66%
2il – Bryngwyn – 22.22%
1af – Lledrod – 25.00%

15. Diolchiadau

Cynigiwyd y pleidlais o ddiolch gan Esyllt Ellis Jones, Cadeirydd y Sir.

Nodwyd bod ffurflenni Clwb 200 ar gael i unrhywun â diddordeb mewn ymuno.
Nodwyd bod y Cwysi ar werth am £4.00.
Nodwyd bod Ffurflenni Aelod Cyswllt ar gael i aelodau oedd wedi mynd dros oedran.
Nodwyd bod Ffurflenni Cynllun Ŵyn ar gael i'r rhai oedd am ymaelodi a'r fenter.

Cyn cloi'r cyfarfod gwnaeth y Llywydd ategu'r diolchiadau, llongyfarchwyd a dymunwyd yn dda i'r holl swyddogion ac i'r Mudiad am y flwyddyn oedd i ddod a gwahoddodd bawb i aros am baned. Hefyd atgoffwyd pawb i arwyddo'r llyfr presenoldeb.